Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG GOGLEDD CYMRU

20 Tachwedd 2026

TEITL: Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27: Adolygiad Hanner Blwyddyn

AWDUR: Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CBC)
Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu trosolwg o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer y cyfnod i 30 Medi 2026.

2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Derbyn yr adroddiad.

3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn ddyddiol ac fe dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Cyllid yng Nghyngor Gwynedd ac mae'n ofynnol iddynt weithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys sydd wedi ei gymeradwyo.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y CBC, gan reoli'r risgiau cysylltiedig.

4.2 Cymeradwywyd y strategaeth ar gyfer 2026/27 gan y CBC ar 20 Mawrth 2026. Mae'r adroddiad hwn yn cymharu'r gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y cyfnod i 30 Medi 2026.

5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Mae'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2026/27 wedi ei seilio ar Côd CIPFA a'r Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol gan Llywodraeth Cymru ac felly yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y CBC o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

ATODIADAU:

Atodiad 1 Gweithgaredd Rheolaeth Trysorlys 2026/27: Adolygiad Hanner Blwyddyn

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Nodaf yr adroddiad a'r cadarnhad bod gweithgaredd rheolaeth trysorlys wedi'i wneud yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys gymeradwy. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau cyfreithiol na llywodraethu ychwanegol.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.